Graddiodd yr Athro Joël Bellassen mewn Athroniaeth a Tsieinëeg yn yr Université Paris VIII - Vincennes. Aeth i Tsieina yn 1973, lle bu'n astudio Athroniaeth a Tsieinëeg yn Sefydliad Ieithoedd Beijing Prifysgol Peking rhwng 1973 a 1975. Ar ôl dychwelyd i Ffrainc, datblygodd y ddisgyblaeth o ddysgu'r iaith Tsieinëeg. Mae'n arbennig o adnabyddus am ei arloesedd pedagogaidd yn y 1980au pan ddyfeisiodd ddulliau i ddysgu'r iaith Tsieinëeg mewn addysg gynradd a oedd yn cynnwys rhoi codau lliw ar symbolau'r iaith i helpu i gofio'r pedair tôn mewn Mandarin safonol (tôn gyntaf: glas; ail dôn: melyn; trydedd dôn: du, pedwaredd dôn: coch). Bu'r Athro Bellassen yn dysgu yn yr École alsacienne ym Mharis, a chafodd swyddi dysgu yn Université Paris VII ac yna yn INALCO. Yn 2003, derbyniodd Bellassen wobr Iaith a Diwylliant Tsieineaidd gan Weinyddiaeth Addysg Tsieina. Yn 2006, gwnaed yn Arolygydd Cyffredinol cyntaf ym maes dysgu'r iaith Tsieinëeg yng Ngweinyddiaeth Addysg Genedlaethol Ffrainc. Roedd ei lyfr cyfeirio ym maes dysgu Tsieinëeg, Méthode d'initiation à la langue et à l'écriture chinoises 1989, a gyd-ysgrifennodd gyda Zhang Pengpen yn un o'r prif werslyfrau a ddefnyddiwyd i ddysgu Tsieinëeg mewn ysgolion uwchradd yn Ffrainc ac sy'n adlewyrchu'r dull rhyngwladol o "zi benwei" (字 本位 Dull adeiladol o ddysgu Tsieinëeg sy'n seiliedig ar symbolau). Mae nifer o'i lyfrau ar ddysgu wedi'u cyfieithu i Saesneg. Mae'n un o is-lywyddion yr International Chinese Language Teachers Association.